



Ysgol Gymraeg Gwynllwyd



18 Gorffennaf 2022

Annwyl Teuluoedd,

Ysgrifennaf atoch chi gyda threfniadau ar gyfer mis Medi, gan mai dyma'r llythyr olaf y tymor cyn i ni groesawu chi atom ym mis Medi hoffen ni ddymuno pob hwyl i chi yn ystod eich wythnos olaf a gobeithiwn y byddwch yn mwynhau creu atgofion i'w trysori.

Dosbarthiadau

Rhan bwysig o'ch profiadau yn yr ysgol Uwchradd yw creu ffrindiau newydd a chwrdd â llawer o bobl newydd, o ganlyniad byddwch chi'n cael eich cymysgu i grwpiau gwahanol ar gyfer gwersi gwahanol. Rydyn ni wedi trefnu dosbarthiadau cofrestru fel eich bod chi gyda grŵp o ffrindiau, roeddech chi yn y dosbarthiadau ar y diwrnod mabolgampau ac felly wedi cwrdd â phawb yn barod. Byddwch chi'n cwrdd â'ch athrawon dosborth ar y diwrnod cyntaf ac yn treulio ychydig o amser gyda nhw yn ystod y diwrnod cyntaf.

Bysiau

Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y bysiau gan eich awdurdod lleol, dydy'r ysgol ddim yn trefnu'r bysiau felly dylech chi gysylltu gyda'ch awdurdod lleol os nad ydych chi'n clywed oddi wrthynt cyn diwedd Awst. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am ble i gwrdd â'ch bysiau a phryd a byddwn ni'n sicrhau eich bod chi ar y bysiau cywir i fynd adref.

Gwsg Ysgol

Rydych chi eisoes wedi derbyn gwybodaeth am y wisg ysgol. Gallwch wisgo archebu gwsg ysgol o'r cwmnïoedd isod, ar hyn o bryd mae Gwefan Ruggerbug dal yn dangos yr hen wisg ysgol felly cofiwch gysylltu gyda nhw os nad ydych chi angen cymorth gyda beth i brynu. Dydy Ruck um Maul ddim wedi diweddu'r gwefan eto ond maen nhw'n gwerthu ein gwsg ysgol.

www.ruggerbug.co.uk

www.ruckummaulsports.shop

Gallwch brynu tei o'r ysgol ar y diwrnod cyntaf am £5. Dylech chi ddod â'r arian gyda chi ar y diwrnod cyntaf.

Amserlen

Byddwch yn derbyn eich amserlen ar y diwrnod cyntaf. Peidiwch â phoeni am hyn. Bydd eich athro dosbarth yn esbonio popeth i chi yn eich amser cofrestru ac yn sicrhau eich bod chi'n deall ble i fynd a phryd. Mae'n bwysig sicrhau eich bod chi'n cadw arian ar eich cyfrif, bydd y ffreutur yn gwrthod bwyd i ddisgyblion gyda dyled dros £5.

Y Ffreutur

Fel arfer, byddwch yn gallu cael bwyd o'r ffreutur a byddwch yn talu am hyn trwy system darian. Byddwch yn derbyn yr holl wybodaeth am hyn yn ystod yr wythnos gyntaf ac felly rydym yn gofyn eich bod chi'n dod â bwyd am yr wythnos gyntaf tra ein bod ni'n sefydlu eich cyfrif ar y system newydd. Bydd bwyd ar gael o'r ffreutur i ddysgwyr sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim.

Class Charts

Rydyn ni'n defnyddio Class Charts i gyfathrebu gyda chi. Byddwch yn derbyn manylion mewngofnodi ym mis Medi. Mae ap ar gyfer rhieni / gofalwyr ac ar gyfer dysgwyr. Dyma le byddwch yn derbyn cyfathrebiadau gan yr ysgol, cyhoeddiadau pwysig a gwybodaeth am ymddygiad eich plentyn. Mae'r ap ar gyfer dysgwyr yn dangos eu hamserlen, ymddygiad a gwaith cartref, mae'n bosib i ni hefyd danfon cyhoeddiadau pwysig at ddysgwyr felly gofynnwn yn garedig eich bod chi'n sicrhau eich bod chi a'ch plentyn wedi lawrlwytho'r ap.

Dyddiadau Pwysig

Bydd y tymor yn dechrau i bawb ar ddydd Mawrth y 6ed o Fedi. Rydyn ni wedi cynllunio diwrnodau HMS ar gyfer y dyddiadau canlynol. byddwn yn eich hysbysebu o ddiwrnodau HMS pellach maes o law.:

2 Medi 2022

5 Medi 2022

9 Rhagfyr 2022

23 Rhagfyr 2022

Atodaf hefyd pecyn gwybodaeth gyda gwybodaeth bwysig am yr ysgol gan gynnwys dyddiadau gwyliau'r ysgol.

Gallwch gysylltu gyda'r ysgol gan ddefnyddio'r manylion cysylltu isod ond mae gwaith pwysig yn digwydd ar y rhwydwaith ar draws Torfaen yn ystod tair wythnos gyntaf y gwyliau. ni fydd mynediad gennym at ein e-byst a fydd y ffonau ddim yn gweithio chwaith. Os oes cwstiynau gyda chi, cysylltwch gyda'r swyddfa ac fe gewch chi ymateb cyn gynted ag y bo modd.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu ym mis Medi.

Yn gywir,

Mrs Rh Dickenson

Pennaeth Cynorthwyo

Dear Families,

I am writing to you with arrangements for September, as this is the last letter of the term before we welcome you to us in September we would like to wish you all the best during your last week and we hope you enjoy creating memories that you will treasure.

Classes

An important part of your experiences at High School is making new friends and meeting lots of new people, as a result you will be mixed up in different groups for different lessons. We have organised registration classes so that you are with a group of friends, you were in these classes on the sports day and therefore have met everyone already. You will meet your class teachers on the first day and spend some time with them during the first day.

Buses

You will receive information about the buses from your local authority, the school does not arrange the buses so you should contact your local authority if you do not hear from them before the end of August. You will receive information about where to meet your buses and when and we will make sure you are on the right buses to go home.

School Uniform

You have already received information about the school uniform. You can order school uniform from the companies below, at the moment the Ruggerbug Website still shows the old school uniform so remember to contact them if you need help with what to buy. Ruck um Maul haven't updated the website yet but they also sell our school uniform.

www.ruggerbug.co.uk

www.ruckumaulsports.shop

Ties can be bought from school on the first day for £5. Learners should bring £5 with them on the first day to purchase a tie.

Timetable


You will receive your timetable on the first day. Don't worry about this. Your class teacher will explain everything to you during registration time and make sure you understand where to go and when.

The Canteen

You will normally be able to get food from the canteen and you will pay for this through a cashless system. You will receive all the information about this during the first week and therefore we ask that you bring food for the first week while we set up your account on the new system. Food will be available from the canteen for learners who receive free school meals from the first day. It is important to keep up to date with payments, anyone with a debt of more than £5 will have their purchase refused by the canteen.

Class Charts

We use Class Charts to communicate with you. You will receive login details in September. There is an app for parents / carers and for learners. This is where you will receive communications from the school, important announcements and information about your child's behaviour. The app for learners shows their timetable, behaviour and homework, we may also send important announcements to learners so we kindly ask that you ensure that you and your child download the app once you have received your login details.



Important Dates

The term will start for everyone on Tuesday the 6th of September. We have planned INSET days for the following dates, we will notify you of further INSET days in due course.:

2 September 2022

5 September 2022

9 December 2022

23 December 2022

I am also attaching an information pack with important information about the school including school holiday dates.

You can contact the school using the contact details below but important work is taking place on the network across Torfaen during the first three weeks of the holidays unfortunately, we won't have access to our emails and the phones won't work either. If you have questions, contact the office and you will get a response as soon as is possible.

We look forward to welcoming you in September.

Yours sincerely,

Mrs Rh Dickenson

Assitant Headteacher